

## **Gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Ryddid (LPS) yng Nghymru**

### **Cwestiynau Cyffredin**

**Lluniwyd y ddogfen hon i gefnogi'r digwyddiadau ymgysylltu y bwriedir eu cynnal ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau drafft i Gymru. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r ddogfen yn gyson.**

**Fersiwn 3: 5 Gorffennaf 2022**

### **Beth yw'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid?**

- Ni ddylai neb gael ei amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon. Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ('LPS' neu'r 'Diogeliadau') yno i roi hawliau ac amddiffyniadau i bobl nad yw'r galluedd meddyliol ganddynt i gytuno i'w trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth, os yw'r trefniadau hynny'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid.
- Mae'r Diogeliadau hyn yn darparu'r gweithdrefnau angenrheidiol yn y gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ofyn am awdurdodiad os nad oes gan rywun alluedd meddyliol.
- Mae'r Diogeliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sicrhau, os nad oes gan rywun alluedd meddyliol – bod unrhyw amddifadu o ryddid sy'n digwydd drwy'r gofal, y cymorth neu'r driniaeth a ddarperir ganddynt (neu y bwriadant ei ddarparu) yn cael ei asesu. Bydd hyn yn cynnwys asesu a yw a) yn angenrheidiol ac yn gymesur; b) er lles pennaf y person; ac c) yn adlewyrchu dymuniadau a theimladau'r person hwnnw.
- Ymysg y bobl gallai fod angen awdurdodiad LPS arnynt mae'r rhai sydd ag anhwylder meddwl, anaf i'r ymennydd, dementia, awtistiaeth ac anabledau dysgu, sydd heb y galluedd perthnasol i gytuno i'r gofal arfaethedig.
- Bydd yr LPS yn disodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), sef y cynllun presennol ar gyfer asesu ac awdurdodi amddifadu o ryddid.
- Cyflwynwyd y DoLS i ddiogelu hawliau dynol pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i gael eu hamddifadu o'u rhyddid. Yn dilyn dyfarniad gan y Goruchaf Lys yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, gyda'r bwriad o ddiddymu'r DoLS a chyflwyno'r LPS yn eu lle. Yn wahanol i'r DoLS (a oedd ond yn berthnasol i drefniadau mewn cartrefi gofal ac ysbytai ac i bobl 18 oed a hŷn), bydd yr LPS yn berthnasol ym mhob lleoliad. Am y tro cyntaf, bydd yr LPS yn ymestyn i gartrefi'r bobl eu hunain a bydd hefyd yn berthnasol i unrhyw un 16 oed a throsodd.

### **Beth yw nodau Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019?**

- Diben Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yw diwygio'r broses o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ar gyfer awdurdodi'r trefniadau gofal, cymorth a

thriniaeth i rywun nad oes ganddo'r galluedd meddyliol i gytuno i'r trefniadau hynny, os ydynt yn arwain at amddifadu'r person hwnnw o ryddid.

- Er bod gan yr LPS yr un diben â'r DoLS, mae'r system newydd wedi'i chynllunio'n wahanol mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft:
  - Bydd y system newydd yn rhoi'r person wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, ac yn cynyddu cyfranogiad, llais a rheolaeth. Bydd yn canolbwyntio ar y person, drwy gyflwyno dyletswydd benodol i ymgynghori â'r person, a'r rhai sy'n ymwneud â'i les, er mwyn canfod ei ddymuniadau a'i deimladau am y trefniadau arfaethedig. Bydd y rhai sy'n agos at y person hefyd yn gallu ei gynrychioli a'i gefnogi, drwy rôl 'Person Priodol' newydd. Yn ogystal, bydd hawliau pobl yn yr achosion mwyaf cymhleth yn cael eu hystyried a'u cadarnhau gan 'Broffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy' (AMCP) newydd.
  - Bydd yr LPS yn berthnasol i ystod mwy eang o leoliadau nag ysbytai a chartrefi gofal yn unig, gan ddarparu amddiffyniadau i bobl sy'n derbyn gofal neu driniaeth yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety preifat. Bydd hyn yn golygu bod mwy o bobl yn gallu cael diogeliadau mewn ffordd fwy cyson.
  - Mae'r system newydd wedi'i chynllunio i integreiddio'n well â chyfreithiau a fframweithiau perthnasol eraill. Y nod yw i arferion LPS gael eu hymgorffori mewn prosesau cynllunio gofal iechyd a gofal eraill, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r integreiddio hwn yn gwneud y broses yn symlach i'r bobl sy'n derbyn gofal (a'r rhai sy'n gofalu amdanynt) ac yn haws i broffesiynolion perthnasol ar draws byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, drwy leihau dyblygu.
- Mae egwyddorion craidd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wrth wraidd ffurf arfaethedig yr LPS. Bydd hyn yn helpu i gysoni ymwybyddiaeth ac ymarfer galluedd meddyliol ymhellach ar draws gwahanol leoliadau a phroffesiynau.

### **Sut bydd yr LPS yn cefnogi pobl?**

- Cyflwynwyd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a byddant yn disodli'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Bydd yr LPS yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r LPS wedi'u cynllunio i atgyfnerthu hawliau, dymuniadau a theimladau'r bobl hynny, sy'n golygu eu bod wrth wraidd yr holl benderfyniadau ar eu gofal, eu cymorth a'u triniaeth, gan gynnwys lle mae amddifadu rhywun o ryddid yn cael ei ystyried.

## Sut mae'r LPS yn wahanol i'r DoLS?

- Mae'r LPS yn wahanol i'r DoLS mewn sawl ffordd. Yn wahanol i'r DoLS, bydd yr LPS yn berthnasol ar draws pob lleoliad, gan gynnwys yng nghartrefi'r bobl eu hunain. Dim ond mewn cartrefi gofal ac ysbytai yr oedd y DoLS yn berthnasol. Ar gyfer lleoliadau eraill, rhaid gofyn am awdurdodiad gan y Llys Gwarchod, sy'n gallu bod yn broses gymhleth. Bydd awdurdodiadau'r LPS yn cwmpasu pob lleoliad, gan gynnwys trefniadau cludiant a threfniadau a wneir mewn lleoliadau domestig. Bydd hyn yn helpu i wella canlyniadau i'r unigolyn a sicrhau bod eu hawliau dynol yn cael eu gwarchod.
- Bydd yr LPS yn ymestyn diogeliadau i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Bydd hyn yn gwella'r diogeliadau ar gyfer pobl ifanc. Er enghraifft, ni fydd angen penderfyniad gan y Llys Gwarchod ym mhob achos mwyach. Ni fydd unrhyw beth yn newid i blant 15 oed ac iau.
- O dan y DoLS, mae Corff Goruchwylio (naill ai fwrdd iechyd neu awdurdod lleol yng Nghymru) yn trefnu chwe asesiad y mae'n rhaid eu cynnal at ddibenion y cais am awdurdodiad. O dan yr LPS, mae Corff Cyfrifol (sef, unwaith eto, naill ai fwrdd iechyd neu awdurdod lleol yng Nghymru) yn trefnu tri asesiad. Lle bo'n briodol, gellir defnyddio asesiadau sy'n bodoli eisoes ar gyfer yr asesiad meddygol a'r asesiad galluedd meddyliol, gan gynnwys asesiadau a gynhaliwyd o'r blaen yn y broses o gynllunio gofal. Fodd bynnag, rhaid i'r asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd fod yn asesiad newydd. Bydd hyn yn symleiddio'r system ac yn helpu i wneud penderfyniadau cyflymach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd hefyd yn lleihau dyblygu ac yn golygu y bydd modd i'r prosesau asesu, cynllunio a chyflawni ar gyfer darparu gofal, cymorth a thriniaeth gael eu hintegreiddio'n well.
- O dan y DoLS, mae angen awdurdodiad gwahanol gydag asesiadau newydd ar gyfer gwahanol leoliadau. Nid yw awdurdodiadau'r LPS yn benodol i leoliadau. Mae hyn yn golygu y gall un awdurdodiad LPS gynnwys amrywiaeth o leoliadau fel y gellir ei ddefnyddio i adlewyrchu'n well y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau bob dydd mewn gwirionedd - er enghraifft, i dalu am eu llety, y gwasanaethau cymunedol y maent yn mynd iddynt a'r cludiant y maent yn ei ddefnyddio i fynd yno.
- Mae awdurdodiadau'r DoLS yn para hyd at 12 mis. O dan yr LPS, gall awdurdodiadau ar gyfer amodau sefydlog bara am hyd at dair blynedd (ar ôl yr awdurdodiad cychwynnol o 12 mis, a'i adnewyddu 12 mis yn ddiweddarach).
- Mae mwy o gyfle i deuluoedd gyfrannu o fewn yr LPS, a gwell amddiffyniadau i bobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol. O dan y DoLS, dim ond i drefniadau cartrefi gofal y mae'r ddyletswydd i ymgynghori yn berthnasol. O dan yr LPS, rhaid i Gyrrff Cyfrifol ymgynghori ag unrhyw berson sydd â diddordeb yn lles y person ar adegau tyngedfennol yn ystod ei daith, gan gynnwys yn ystod yr asesiadau cychwynnol, pan fydd amrywiad yn cael ei ystyried a chyn i awdurdodiad gael ei adnewyddu. Ceir ymgynghoriad ychwanegol os yw AMCP yn cynnal adolygiad cyn-awdurdodi.

- Mae'r LPS hefyd yn darparu gwell mynediad at gyngor, cymorth ac eiriolaeth i'r unigolyn, ac yn cyflwyno rôl newydd y Person Priodol. O dan y DoLS, penodir Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) os nad oes person annibynnol i gynghori ar les pennaf yr unigolyn, neu pan fydd unigolyn yn dymuno herio'r awdurdodiad.
- O dan y DoLS, mae'n ofynnol i Asesydd Lles Pennaf asesu pob awdurdodiad. O dan yr LPS, ni fydd rôl yr Asesydd Lles Pennaf yn bodoli mwyach, ond bydd pob cais am awdurdodiad yn cael ei adolygu ymlaen llaw gan berson nad yw'n ymwneud â gofal o ddydd i ddydd y person sy'n derbyn gofal nac yn darparu unrhyw unrhyw driniaeth i'r person. Gellir cymeradwyo Asesydd Lles Pennaf sy'n gwneud y rôl ar hyn o bryd i ymgymryd â rôl newydd yr AMCP. Dim ond mewn achosion penodol lle mae eu sgiliau perthnasol eu hangen fwyaf (er enghraifft, os yw'r person sy'n derbyn gofal yn gwthwynebu'r trefniadau neu'n debygol o wneud hynny) y bydd gofyn i AMCP ymgymryd â'r adolygiad cyn-awdurdodi. Drwy gyfeirio sgiliau mewn modd penodol, bydd y system yn fwy effeithlon.

### **Beth yw'r Rheoliadau LPS i Gymru?**

- Mae'r LPS yn cael eu cyflwyno gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019. Deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr yw hon. Mae'r Ddeddf newydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i Gymru i gefnogi'r broses o weithredu'r Diogeliadau.
- Bydd y Rheoliadau newydd i Gymru yn nodi sut y bydd yr LPS yn gweithredu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Rheoliadau ar bwy all gynnal asesiadau, penderfyniadau ac adolygiadau cyn-awdurdodi o dan yr LPS; penodi a hyfforddiant ar gyfer rôl newydd yr AMCP; a sut y caiff yr LPS eu monitro a sut yr adroddir arnynt yng Nghymru. Ceir Rheoliadau diwygio hefyd i adlewyrchu'r ffaith fod yr LPS yn ehangu rôl bresennol yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol, yn enwedig y swyddogaethau y byddant yn eu cyflawni a'r sgiliau a'r cymorth y byddant yn eu darparu o dan y system newydd.

### **Pam fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Rheoliadau i Gymru?**

- Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Rheoliadau drafft i Gymru i gasglu barn rhanddeiliaid ar y dull yr ydym yn bwriadu ei fabwysiadu ar gyfer yr LPS yng Nghymru. Rydym am sicrhau ein bod wedi gwneud pethau'n iawn a'n bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu a chefnogi'r bobl hynny nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gytuno i'w trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth, os yw'r trefniadau hynny'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid.
- Mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar Rheoliadau drafft i Loegr a fydd yn gweithredu'r LPS yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymgynghori ar God Ymarfer LPS drafft a fydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr er mwyn sicrhau cysondeb yn y dehongliad a'r dull o ddefnyddio'r LPS, tra'n cydnabod y bydd rhai gwahaniaethau gweithredol rhwng y ddwy wlad.

## **Pryd bydd y Diogeliadau newydd yn cael eu gweithredu?**

- Nid yw dyddiad targed Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhag Rhyddid newydd a Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 wedi'i gadarnhau eto gan Llywodraeth y DU. Y bwriad yw y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried aborth yr ymgynghoriad wrth gytuno dyddiad gweithredu.

## **Beth yw'r heriau ar hyn o bryd o ran gweithredu'r LPS yng Nghymru?**

- Mae'n hollbwysig cynllunio a hyfforddi'r gweithlu ar gyfer byrddau iechyd a staff awdurdodau lleol a fydd yn rhan o'r gwaith o weithredu'r Diogeliadau newydd. Mae angen inni sicrhau bod gennym ddigon o Broffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy wedi'u hyfforddi, a digon o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, yn ogystal â phobl sydd wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau, penderfyniadau ac adolygiadau cyn-awdurdodi. Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi drafft i Gymru i gefnogi'r flaenoriaeth allweddol hon, ac wedi bod yn casglu barn ar ei chynnwys a'r amserlenni ar gyfer ei chyflawni.
- Er mwyn cefnogi'r gwaith o fonitro ac adrodd ar y Diogeliadau newydd, rydym yn datblygu Set Ddata Ofynnol Genedlaethol newydd ar yr LPS.

## **Pryd bydd yr LPS yn dechrau?**

- Bydd y flwyddyn gyntaf o weithredu'r LPS yn flwyddyn bontio – lle bydd y DoLS a'r LPS yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd. Yn ystod y flwyddyn bontio hon, wrth i'r awdurdodiadau DoLS presennol gael eu hadolygu, byddant yn cael eu hystyried o dan y trefniadau LPS newydd. Bydd ceisiadau newydd yn cael eu hystyried o dan yr LPS. Bydd trefniadau pontio tebyg ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd drwy'r Llys Gwarchod. Yn lle hynny yn y dyfodol byddant yn cael eu hawdurdodi gan naill ai'r bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol

## **Sut rydych chi'n ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd o'r broses yng Nghymru?**

- Rydym wedi bod yn ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd drwy sesiynau ar-lein fel Fforwm Iechyd Meddwl Cymru, a'r Grŵp Goruchwylio Effaith a Gweithrediad ym maes Dementia. Mae ein sgysiau wedi helpu i lunio'r cwestiynau rydym yn eu gofyn fel rhan o'r ymgynghoriad ar-lein – ac rydym hefyd wedi helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu digwyddiadau ymgysylltu penodol a fydd yn cael eu cynnal fel rhan o'r ymgynghoriad ei hun. Rydym hefyd wedi siarad â rhanddeiliaid a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ag anableddau, anableddau dysgu, pobl hŷn, plant a gofalwyr di-dâl a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i hyrwyddo'r ymgynghoriad ac i nodi cyfleoedd ar gyfer sgysiau pellach.

- Gellir gweld fersiynau hygyrch o Reoliadau drafft Cymru, y Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi drafft, a'n cynlluniau ar gyfer monitro ac adrodd ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru ar yr LPS. Rydym hefyd wedi darparu dogfen Hawdd ei Deall sy'n crynhoi'r pedair set o Reoliadau, trosolwg Hawdd ei Ddeall o'r LPS a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad sy'n Hawdd ei Deall.

### **Sut bydd yr LPS yn sicrhau gwell canlyniadau i'r bobl hynny nad yw'r galluedd meddyliol ganddynt i gydsynio i'w gofal, eu cymorth a'u triniaeth?**

- Mae'r Diogeliadau newydd yn rhoi cyfle i ni ddiogelu hawliau dynol y bobl hynny sydd heb alluedd meddyliol yn well.
- Mae'r LPS yn atgyfnerthu bod y person sy'n cael ei amddifadu o ryddid wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Bydd yn integreiddio'r LPS yn well i'r broses o asesu, adolygu a chynllunio gofal, cymorth a thriniaeth pobl o ddydd i ddydd, gan wrando ar ddymuniadau a theimladau pobl ac osgoi'r angen iddynt ailadrodd eu straeon am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a'r canlyniadau maent am eu cyflawni. Bydd mwy o ymgynghori â'r person a'r rhai sy'n bwysig iddynt, gan eu galluogi i gael gwrandawriad gwell a chael eu clywed.
- Mae'r LPS yn gyson â'n deddfwriaeth a'n hegwyddorion ar gyfer gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg yng Nghymru, sy'n hybu awtonomi unigolion ac yn eu grymuso, yn galluogi eu hawliau, ac yn eu grymuso i wneud eu penderfyniadau eu hunain gan sicrhau cydbwysedd rhwng hynny a'u diogelwch, lle bo angen.

### **Pwy fydd y Corff Cyfrifol a fydd yn awdurdodi'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid?**

- Yng Nghymru, naill ai'r bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol fydd yn gwneud hyn, yn dibynnu ar leoliad sylfaenol y gofal, y cymorth neu'r driniaeth sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Fodd bynnag, bydd yr egwyddor 'dim drws anghywir' yn berthnasol – a bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu pa un yw'r Corff Cyfrifol cywir i awdurdodi'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid – lle nad yw hyn yn glir.

### **Beth mae'r Diogeliadau newydd yn ei olygu i fyrddau iechyd Cymru?**

- Ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, y byrddau iechyd yng Nghymru fydd y Cyrff Cyfrifol o dan yr LPS. Mae hyn yn golygu eu bod yn gyfrifol am awdurdodi'r trefniadau gofal, y cymorth neu driniaeth lle mae'r rhain yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, os nad oes gan berson y galluedd meddyliol i gytuno i'r trefniadau hynny. Byddant yn gyfrifol nid yn unig am awdurdodi trefniadau yn lleoliadau'r GIG, ond mewn lleoliadau eraill hefyd – lle mae gofal, cymorth neu driniaeth yn cael ei ddarparu. Er enghraifft: bydd byrddau iechyd yn awdurdodi trefniadau a wneir mewn ysbytai annibynnol os yw'r rhain yn gyfystyr ag amddifadu rhyddid y rhai sy'n derbyn gofal; a hefyd os yw'r gofal yn cael ei roi yn bennaf o dan

drefniadau a wneir gan y bwrdd iechyd sy'n cyfateb i Ofal Iechyd Parhaus GIG Cymru.

- Mae cyfrifoldebau allweddol y bwrdd iechyd yn cynnwys sicrhau bod y person naill ai'n cael ei gefnogi gan Berson Priodol neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA); sicrhau bod tri asesiad a phenderfyniadau'r LPS ar waith; trefnu a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi; a lle bo'n briodol trefnu i Broffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP) gynnal adolygiad cyn-awdurdodi (er enghraifft: ar gyfer achosion mwy cymhleth; pan fo'r person yn derbyn gofal mewn ysbyty annibynnol; ac os yw'r person yn gwrthwynebu ei ofal, ei gymorth a'i driniaeth). Bydd dyletswydd ar fyrdau iechyd hefyd i roi gwybod i gyrff monitro (AGC, AGIC ac Estyn) am geisiadau, awdurdodiadau ac adnewyddiadau LPS.
- Mae'r Cod Ymarfer newydd ar gyfer yr LPS yn nodi ymhellach rolau a chyfrifoldebau'r Corff Cyfrifol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrthi'n ymgynghori ar y Cod Ymarfer drafft hwn.

### **Beth mae'r Diogeliadau newydd yn ei olygu i awdurdodau lleol Cymru?**

- Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i gymeradwyo AMCPs a sicrhau bod digon ohonynt i gefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ac ardal berthnasol y bwrdd iechyd lleol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod AMCP, ar ôl ei gymeradwyo, yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd gofynnol i barhau â'r gymeradwyaeth honno.
- Yn ogystal, o dan rai amgylchiadau, gall awdurdod lleol yng Nghymru fod yn Gorff Cyfrifol (er enghraifft, pan fo awdurdod lleol yn gyfrifol am gynllun datblygu unigol person neu'n diwallu anghenion o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Mae hyn yn golygu, fel yn achos byrddau iechyd, y gall awdurdod lleol fod yn gyfrifol am awdurdodi'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth lle mae'r rhain yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, os nad oes gan berson y galluedd meddyliol i gytuno i'r trefniadau hynny.
- Yn yr un modd â'r byrddau iechyd, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod y person naill ai'n cael ei gefnogi gan berson priodol neu IMCA; sicrhau bod tri asesiad a phenderfyniadau LPS ar waith; trefnu a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi; a threfnu i AMCP gynnal adolygiad cyn-awdurdodi o dan rai sefyllfaoedd (er enghraifft: ar gyfer achosion mwy cymhleth; pan fo'r person yn derbyn gofal mewn ysbyty annibynnol; ac os yw'r person yn gwrthwynebu ei ofal, ei gymorth a'i driniaeth). Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd i roi gwybod i gyrff monitro (AGC, AGIC ac Estyn) am geisiadau, awdurdodiadau ac adnewyddiadau LPS.

### **Beth mae'r Diogeliadau newydd yn ei olygu i leoliadau addysg yng Nghymru?**

- Bydd yr LPS yn gymwys ym mhob lleoliad. Os yw gofal, cymorth neu driniaeth rhywun yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid (gan gynnwys y cymorth sy'n cael ei ddarparu mewn lleoliad addysg) – ac nad oes gan y person sy'n derbyn gofal y

galluedd meddyliol i gytuno i'r gofal, y cymorth neu'r driniaeth honno – rhaid awdurdodi hyn o dan yr LPS.

- Gall yr awdurdodiad LPS gynnwys sawl lleoliad – ac felly pan fo unrhyw ofal, cymorth neu driniaeth sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn cael ei ddarparu mewn lleoliad addysg (e.e. mewn ysgol arbenigol / ysgol breswyl), bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr awdurdodiad LPS. Rhagwelir y bydd y trefniadau hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o gynllun gofal y person ifanc. Awdurdodau lleol fydd y Corff Cyfrifol ar gyfer awdurdodi trefniadau mewn lleoliadau addysg (os mai dyma'r prif lleoliad lle mae'r person yn derbyn gofal, cymorth neu driniaeth).
- Ar hyn o bryd, os nad oes gan berson ifanc (16 neu 17 oed) alluedd meddyliol a'i fod yn cael ei amddifadu o'i ryddid, awdurdodir yr amddifadu o ryddid hwn drwy'r Llys Gwarchod. O dan yr LPS, bydd y trefniadau'n ymestyn i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Mae hyn yn golygu na fydd angen cael penderfyniad gan y Llys Gwarchod, ym mhob achos, ynghylch a ddylid awdurdodi'r amddifadu rhyddid. Yn hytrach, bydd gofal, cymorth neu driniaeth y person ifanc sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn cael ei awdurdodi drwy'r LPS.

### **Beth mae'r Diogeliadau newydd yn ei olygu i mi fel person sy'n derbyn gofal?**

- Mae'r LPS yn sicrhau bod eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau yn llywio eich gofal, eich cymorth a'ch triniaeth. Os na allwch roi eich caniatâd pan fydd raid eich amddifadu o'ch rhyddid, mae'r LPS yn sicrhau bod hyn yn cael ei adolygu a'i awdurdodi yn unol â'r gyfraith ac â'ch hawliau dynol.
- Mae'r LPS yn darparu cyfres o rwystrau a gwrthbwysau i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu hawtonomi a'u hannibyniaeth; yr ymgynghorir yn briodol â'r person, ei deulu a phobl eraill sy'n cefnogi'r person; a bod dymuniadau a theimladau'r person wedi cael eu hystyried.
- Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol (a elwir yn Gyrrff Cyfrifol) sy'n gyfrifol am weithredu'r LPS yng Nghymru ac am fodloni'r dyletswyddau yn y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer.
- O dan yr LPS byddwch yn derbyn cymorth gan Berson Priodol neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA). Os oes gennych Berson Priodol, gall hefyd gael cymorth a chefnogaeth gan IMCA.
- Cynhelir tri asesiad: asesiad meddygol, asesiad galluedd meddyliol, ac asesiad i farnu a yw eich trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth arfaethedig yn angenrheidiol ac yn gymesur (ac yn caniatáu i chi gadw cymaint o'ch rhyddid â phosibl). Er mwyn bwrw ymlaen, rhaid i'r asesiadau benderfynu'n ffurfiol bod y trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur; 2) nad oes gennych y galluedd i gydsynio i'r trefniadau arfaethedig; a 3) bod gennych anhwylder meddwl. Oni bai bod pob un o'r tri yn berthnasol, bydd yn rhaid i'ch ymarferwyr ystyried trefniadau gwahanol. Cyn i'r Corff Cyfrifol awdurdodi'r trefniadau, cynhelir adolygiad cyn-awdurdodi o'r dystiolaeth gan rywun nad yw wedi bod yn rhan o'ch gofal neu'ch



triniaeth. Mewn rhai achosion, bydd yr adolygiad cyn-awdurdodi yn cael ei gynnal gan AMCP.

- Os ydych yn gwrthwynebu eich trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth (neu os yw'n rhesymol meddwl eich bod yn gwrthwynebu'r trefniadau hynny) neu os mai mewn ysbyty annibynnol y mae'r trefniadau gofal; yn ogystal â'r tri asesiad bydd AMCP yn adolygu'r dystiolaeth (gan gynnwys y tri asesiad) ac yn cadarnhau i'r Corff Cyfrifol ei farn ynghylch a yw'r amodau awdurdodi wedi'u bodloni. Fel rhan o'r adolygiad cyn-awdurdodi, bydd yr AMCP yn cyfarfod ac yn ymgynghori â chi a / neu eich Person Priodol.
- Os yw'r asesiadau, y penderfyniadau a'r adolygiad cyn-awdurdodi yn dangos bod yr amodau awdurdodi wedi'u bodloni, gall y Corff Cyfrifol awdurdodi'r trefniadau a bydd hyn yn rhan o'ch cynllun gofal, cymorth a thriniaeth.

### **Beth mae'r Diogeliadau newydd yn ei olygu i mi fel darparwr gofal?**

- Bydd yr LPS yn cymryd lle'r DoLS. Mae'r LPS yn darparu dull mwy syml ac integredig, ac yn cynnwys proses o ystyried wrth gynllunio gofal, cymorth a thriniaeth o'r cychwyn cyntaf. Fel darparwr gofal, bydd angen i chi ddeall beth mae'r newidiadau'n ei olygu ac amseru pryd y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno.
- Yn wahanol i'r DoLS, a oedd ond yn berthnasol i gartrefi gofal ac ysbytai, bydd yr LPS yn berthnasol i bob lleoliad gan gynnwys cartrefi'r bobl eu hunain. Bydd Cydff Cyfrifol (byrddau iechyd neu awdurdodau lleol yng Nghymru) yn parhau i fod yn gyfrifol am awdurdodi'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Bydd byrddau iechyd yn gyfrifol am awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid i'r bobl hynny sy'n cael cymorth drwy Ofal Iechyd Parhaus y GIG o dan drefniadau gan fyrddau iechyd lleol.
- Fel darparwr gofal, byddwch yn gweithio gyda'r Corff Cyfrifol perthnasol i sicrhau nad yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon a'u bod yn cael gofal, cymorth a thriniaeth o'r safon uchaf.
- Bydd staff sy'n gofalu am y person bob dydd (ac felly'n ei adnabod yn dda iawn), ochr yn ochr â theulu a ffrindiau'r person, yn chwarae rhan hanfodol drwy gydol y broses asesu ac yn ystod camau ymgynghori'r broses LPS. Yn benodol, byddant yn gallu chwarae rhan bwysig wrth helpu i sefydlu dymuniadau a theimladau'r person.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi LPS a fydd yn cynnwys ffocws ar ddatblygu hyfforddiant, deunyddiau ategol a gwybodaeth i ddarparwyr gofal. Ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft i Gymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar ddatblygu'r Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi.

## **Beth am y dyletswyddau newydd i ddarparwyr llety cartrefi gofal yng Nghymru?**

- Bydd staff sy'n gofalu am y person bob dydd (ac felly'n ei adnabod yn dda iawn), ochr yn ochr â theulu a ffrindiau'r person, yn chwarae rhan hanfodol drwy gydol y broses asesu ac yn ystod camau ymgynghori'r broses LPS. Yn benodol, byddant yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i sefydlu dymuniadau a theimladau'r person.
- O dan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 gallai Cyrff Cyfrifol ofyn i ddarparwyr cartrefi gofal ymgymryd â rhai agweddau ar y broses LPS o ran y swyddogaethau asesu ac ymgynghori. Yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno nad dyma'r amser cywir i gyflwyno'r rôl newydd hon ond y dylid cadw hyn mewn cof at y dyfodol.

## **Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu**

### **Pa gynlluniau sydd ar droed i ddarparu hyfforddiant ar gyfer y gweithlu DoLS presennol wrth inni newid i'r LPS – yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer rolau newydd o dan yr LPS?**

- Os yw sefydliad yn darparu gwasanaethau i bobl 16+ oed nad ydynt efallai'n gallu cydsynio i amddifadu eu rhyddid, bydd angen i'w staff ddysgu am y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn ogystal â ddarparwyr gofal, triniaeth cymorth ac addysg, amryw o rolau perthnasol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Set Ddata Ofynnol Genedlaethol ar gyfer yr LPS yng Nghymru.
- Mae'r Cynllun Gweithlu yn nodi'r ystyriaethau y bydd angen i Gyrff Cyfrifol eu cyflawni er mwyn cynllunio eu gweithlu i gyflawni'r LPS.
- Mae dwy elfen i'r Fframwaith Hyfforddi. Bydd y rhan gyntaf yn cefnogi'r newid i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, a bydd yn helpu staff i fod yn barod i weithio yn eu rolau newydd. Bydd yr ail ran yn helpu staff i barhau i weithio yn y rolau hyn yn y dyfodol.
- Mae gan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid rolau gwahanol i'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Bydd angen i'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar staff adlewyrchu hyn.
- Bydd angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol benderfynu faint o staff fydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau a chyfrifoldebau o dan yr LPS. Bydd hyn yn

arwain at amrywiaeth o ganlyniadau posibl, gan gynnwys hyfforddiant, recriwtio neu gydweithredu ar draws ardaloedd lleol.

- Bydd angen rhywfaint o hyfforddiant ar bob aelod o staff, ond ni fydd angen yr un hyfforddiant arnynt i gyd. Mae chwech o grwpiau allweddol wedi cael eu nodi.
  - **Grŵp A:** Dyma'r staff a allai ddod i gysylltiad â pherson sy'n derbyn gofal na fydd efallai'n gallu cydsynio i newidiadau sy'n cyfyngu ar ei ryddid. Mae angen iddynt wybod am Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
  - **Grŵp B:** Rheolwyr y staff yng Ngrŵp A yw'r rhain. Mae angen iddynt wybod pryd y mae angen awdurdodiad Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a sut mae'r LPS yn gweithio.
  - **Grŵp C:** Dyma'r staff sy'n cynnal asesiadau ac yn ysgrifennu cynlluniau statudol sy'n cynnwys gofal, cymorth a thriniaeth. Bydd angen iddynt wybod sut i gynnal yr asesiadau sy'n ofynnol o dan yr LPS, gan gynnwys gyda phwy i ymgynghori a sut i wneud hynny. Bydd angen iddynt hefyd wybod pryd i gynnwys yr AMCP.
  - **Grŵp D:** Rheolwyr y staff yng Ngrŵp C yw'r rhain. Byddant yn adolygu'r asesiadau ac yna'n awdurdodi'r hyn a benderfynwyd. Bydd angen iddynt wybod sut i asesu'r dystiolaeth LPS a gyflwynwyd a sut i fonitro ac adrodd ar yr LPS.
  - **Grŵp E:** Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol yw'r rhain. Bydd angen i'r staff presennol gael hyfforddiant ar sut mae eu rôl newydd yn wahanol i'w hen un. Bydd angen i staff newydd gael cwrs hyfforddi.
  - **Grŵp F:** Y Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCPs) yw'r rhain: Bydd angen i'r Aseswyr Lles Pennaf presennol gael hyfforddiant ar rôl newydd yr AMCP. Bydd angen i staff newydd nad ydynt yn Aseswyr Lles Pennaf ar hyn o bryd gael hyfforddiant.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi ar gyfer yr LPS a fydd yn cynnwys ffocws ar ddatblygu hyfforddiant, deunyddiau ategol a gwybodaeth i ddarparwyr gofal. Ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft i Gymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar ddatblygu'r Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Ofal Cymdeithasol Cymru arwain ar gomisiynu'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y grwpiau a nodwyd uchod. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd er mwyn iddynt allu ei gyflwyno i'w staff.

## **Rheoliadau Monitro ac Adrodd**

### **Pam fod monitro ac adrodd ar yr LPS mor bwysig?**

- Mae amddifadu person o'i ryddid yn ymyrraeth â'i hawliau dynol. Mae'r LPS wedi'u cynllunio i sicrhau mai dim ond os yw hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur y caiff pobl eu hamddifadu o'u rhyddid, a bod mesurau wedi'u darparu i ddiogelu eu hawliau. Er mwyn rhoi sicrwydd bod yr LPS yn cael eu gweithredu'n gywir, mae'n bwysig cael mecanwaith effeithiol ar gyfer monitro'r defnydd o'r diogeliadau.

### **Sut rydych chi'n bwriadu monitro'r LPS?**

- Rydym yn datblygu Set Ddata Ofynnol Genedlaethol newydd ar gyfer yr LPS i gefnogi'r broses o fonitro ac adrodd yn y dyfodol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a chydweithwyr yn lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol i gytuno ar yr eitemau data unigol. Bydd disgwyl i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol adrodd ar y Set Ddata Ofynnol Genedlaethol yn y dyfodol.
- Mae Rheoliadau drafft Cymru ar fonitro ac adrodd yn nodi mai Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn fydd cyrff monitro Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyrff Cyfrifol roi gwybod i'r sefydliadau hyn am geisiadau, awdurdodiadau ac adnewyddiadau LPS. Mae'r eitemau arfaethedig yn y Set Ddata Ofynnol Genedlaethol yn cynnwys yr wybodaeth hon.
- Mae Strategaeth Monitro ac Adrodd LPS yn cael ei datblygu hefyd. Nod y Strategaeth yw sicrhau bod byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn diogelu hawliau pobl; nad oes rhyddid neb yn cael ei amddifadu heb yr awdurdodiad cyfreithlon; ac mai dim o fewn y terfynau llym a ysgrifennwyd yn yr awdurdodiad y gellir amddifadu person o'i ryddid. Fel rhan o'r Rheoliadau Monitro ac Adrodd, bydd angen i Gyrff Cyfrifol ddarparu gwybodaeth i AGC, AGIC ac Estyn ar geisiadau, awdurdodiadau ac adnewyddiadau LPS – a bydd angen iddynt fod â systemau priodol ar waith i gefnogi'r broses hon.
- Mae AGC, AGIC ac Estyn wedi cytuno, fel y cyrff monitro penodedig, y byddant yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cyd ar yr LPS. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn cael ei nodi yn Strategaeth Monitro ac Adrodd LPS Cymru.

### **Pwy sy'n datblygu Strategaeth Monitro ac Adrodd Cymru a phryd y caiff hon ei chyhoeddi?**

- Mae AGC, AGIC ac Estyn yn cydweithio i ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Monitro ac Adrodd. Byddant yn ymgysylltu â rhanddeiliaid dros yr wythnosau nesaf i rannu drafft o'r strategaeth – gyda'r bwriad o ddatblygu ymhellach y dull o fonitro ac adrodd ar LPS Cymru.

### **Pam fod y Rheoliadau'n enwi AGC, AGIC ac Estyn fel y Cyrff Monitro?**

- Ar hyn o bryd AGC ac AGIC sy'n monitro'r system bresennol ar gyfer awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid pan nad oes gan y person y galluedd i gytuno i'r trefniadau hyn, o dan y DoLS. Bydd yr LPS yn berthnasol ar draws pob lleoliad a hefyd i bobl ifanc 16 ac 17 oed – ac felly er mwyn adlewyrchu'r cwmpas ehangach hwn mae Estyn hefyd wedi'i enwi'n gorff monitro at ddibenion monitro ac adrodd ar yr LPS yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r rôl strategol ehangach o ran monitro ac adrodd ar yr LPS yng Nghymru.

### **Pam rydych chi wedi cynnwys darpariaeth yn y Rheoliadau ar geisio caniatâd i ymweld â phobl mewn anheddau preifat?**

- Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yn nodi y gall cyrff monitro ymweld ag unrhyw fan lle mae trefniadau wedi'u hawdurdodi o dan yr LPS. Gan fod modd awdurdodi trefniadau mewn ystod eang o leoliadau, mae hyn yn golygu y bydd cyrff monitro yn gallu ymweld ag ystod eang o leoliadau lle darperir gofal, cymorth neu driniaeth – gan gynnwys anheddau preifat. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn diffinio ystyr ymweliad ac felly nid yw'n cynnwys yn benodol unrhyw bŵer i archwilio neu bŵer i fynd i mewn. Gall arolygiaethau Cymru ddefnyddio eu pwerau presennol i ymweld â lleoliadau a reoleiddir ac i fynd i mewn iddynt o dan eu fframweithiau arolygu presennol.
- Yng Nghymru, mae darpariaeth benodol fel bod yn rhaid i gorff monitro ofyn am ganiatâd cyn ymweld pan fo trefniant awdurdodedig yn cael ei wneud yng nghartref rhywun (annedd breifat neu mewn rhan o safle a ddefnyddir fel annedd breifat). Mae hyn wedyn yn diogelu hawliau pobl.
- Yn ogystal, gall corff monitro gyfarfod â pherson sy'n derbyn gofal os bydd yn cydsynio i gyfarfod â'r corff monitro. Os nad oes gan y person y galluedd i gydsynio, mae angen i atwrnai o dan Atwrneiaeth Arhosol neu ddirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod, sydd â'r awdurdod perthnasol, wneud penderfyniad er lles pennaf. Os nad oes person o'r fath, bydd unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am y person, neu sydd â diddordeb yn ei les, yn gwneud y penderfyniad. Gall hyn gynnwys y cyrff monitro, yn ogystal ag IMCA neu Berson Priodol y sawl sy'n derbyn gofal.

**Mae angen cydbwysedd – o ran sut y gall monitro'r LPS gynnig diogeliadau i bobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol ac sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, ond gan amddiffyn ar yr un pryd rhag ymyrraeth gan y Wladwriaeth â hawl pobl i breifatrwydd. I ba raddau mae'r Rheoliadau'n rhoi'r cydbwysedd hwnnw?**

- Mae monitro ac adrodd ar yr LPS newydd yn ddiogeliad ynddo'i hun. Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod sut y mae'r diogeliadau yn gweithredu er mwyn deall sut y maent yn diogelu hawliau'r bobl hynny nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gytuno i'w trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth, os yw'r trefniadau hynny'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid.
- Bydd Llywodraeth Cymru, drwy'r cyrff monitro statudol (AGIC, AGC ac Estyn), yn monitro'r Cyrff Cyfrifol yng Nghymru er mwyn deall sut mae'r diogeliadau'n cael eu cynnal.
- Mae'r diogeliadau yn berthnasol i bob lleoliad – gan gynnwys cartrefi'r bobl eu hunain. Rydym yn cydnabod yn llwyr yr angen am gydbwysedd rhwng diogelu hawliau pobl i sicrhau nad ydynt yn cael eu hamddifadu'n anghyfreithlon o'u rhyddid – gan sicrhau ar yr un pryd bod eu hawl i breifatrwydd yn cael ei ddiogelu hefyd. Credwn fod y Rheoliadau ar gyfer Cymru yn rhoi'r cydbwysedd hwnnw.
- Fel rhan o'r LPS, mae diogeliadau ar waith i ddiogelu'r unigolyn a sicrhau yr ymgynghorir â'r person a'i Berson Priodol ar bob cyfle, a bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hadlewyrchu yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal, eu cymorth a'u triniaeth. Mae'r AMCP yn darparu diogeliadau ychwanegol i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed – gan y bydd AMCPs yn ystyried yr achosion mwyaf cymhleth ac achosion hefyd lle mae'r person yn gwrthwynebu ei ofal, ei gymorth a'i driniaeth.

### **Y Rheoliadau AMCP:**

#### **Beth yw AMCP a beth mae'n ei wneud?**

- Mae rôl y Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP) yn un newydd o fewn y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r AMCP yn disodli ac yn datblygu rôl yr Aseydd Lles Pennaf o dan y Ddeddf ac mae'n gwneud defnydd o ddyletswyddau allweddol y Proffesiynolyn Iechyd Meddwl Cymeradwy presennol.
- Cyn y gall Corff Cyfrifol (awdurdod lleol neu fwrdd iechyd yng Nghymru) benderfynu a ddylid awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, rhaid cynnal adolygiad cyn-awdurdodi o achos y person a gwneud y penderfyniad priodol. Bydd AMCP yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi o achos y person:
  - os yw'n rhesymol credu nad yw'r person yn dymuno byw yn y lle a gynigir yn y trefniadau;
  - os yw'n rhesymol credu nad yw'r person yn dymuno cael gofal na thriniaeth yn y lle a gynigir yn y trefniadau;
  - os mai'r trefniadau arfaethedig yw bod y person yn derbyn gofal neu driniaeth mewn ysbyty annibynnol yn bennaf;
  - os yw'r Corff Cyfrifol yn cyfeirio'r achos at AMCP a bod yr AMCP yn derbyn yr atgyfeiriad.

- Os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol, mae'n ofynnol i'r AMCP gyfarfod â'r person ac ymgynghori â'r rhai sy'n ymwneud â'i ofal neu ei driniaeth, a'r rhai sydd â diddordeb yn lles y person megis aelodau o'r teulu, neu gymryd unrhyw gamau pellach. Mewn llawer o achosion, bydd disgwyl i AMCP ystyried a ellir rhoi trefniadau amgen ar waith sy'n lleihau'r cyfyngiadau a roddir ar y person a/neu sy'n atal amddifadu o ryddid.

### **Pam fod rôl yr AMCP mor bwysig?**

- Bydd rôl yr AMCP yn hanfodol i gefnogi hawliau llawer o'r rhai nad oes ganddynt alluedd meddyliol ac wrth hyrwyddo egwyddorion allweddol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a hawliau'r dyletswyddau sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg gyfochrog.

### **Pam fod angen y Rheoliadau AMCP ar gyfer Cymru?**

- Mae'r Rheoliadau ar gyfer Cymru yn nodi'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo AMCP gan awdurdodau lleol, a'r gofynion hyfforddi ar gyfer y rôl allweddol hon. Mae hefyd yn nodi'r corff penodedig a fydd yn cymeradwyo'r hyfforddiant a ddatblygir yng Nghymru (sef Gofal Cymdeithasol Cymru).
- Bydd angen i'r Rheoliadau AMCP ddod i rym cyn y dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer yr LPS, gan y bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod Aseswyr Lles Pennaf wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i drosi i'r rôl AMCP newydd. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod digon o AMCPs ar waith i gefnogi'r LPS.

### **Bydd Aseswyr Lles Pennaf yn gallu hyfforddi a throsi i fod yn AMCP. Pwy fydd yn datblygu'r hyfforddiant trosi hwn a phryd y caiff ei gyflwyno?**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gofal Cymdeithasol Cymru arwain ar gomisiynu'r cwrs hyfforddi newydd ar gyfer trosi Aseswyr Lles Pennaf i'r rôl AMCP newydd, o dan yr LPS. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gomisiynu ochr yn ochr â'r cyfnod ymgynghori, a'r bwriad yw y bydd hyfforddiant ar gael yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Rydym yn bwriadu i'r DoLS a'r LPS weithredu ochr yn ochr â'i gilydd yn ystod y flwyddyn gyntaf o bontio. Rhaid i Aseswyr Lles Pennaf sydd wedi cael hyfforddiant trosi gwblhau eu hyfforddiant a gwneud cais am gymeradwyaeth o fewn y cyfnod pontio hwn. Y bwriad wrth ddarparu ar gyfer hyfforddiant trosi yw sicrhau bod mecanwaith symlach o ganiatáu i ymarferwyr sy'n gweithio fel Aseswyr Lles Pennaf ar hyn o bryd ddod yn AMCPs a'u galluogi i ddechrau gweithio cyn gynted â phosibl. Mae'r hyfforddiant hwn yn ystyried y ffaith eu bod yn Aseswyr Lles Pennaf sy'n weithredol ar hyn o bryd – felly byddai angen

hyfforddi a chymeradwyo'n gynnar cyn i fwllch ddatblygu ers eu gwaith fel BIA gweithredol.

### **Sut bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod gan Gymru ddigon o AMCPs i gefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS?**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi a fydd yn cynnwys ffocws ar ddatblygu hyfforddiant, deunyddiau ategol a gwybodaeth.
- Un o brif nodau'r Cynllun Gweithlu yw helpu byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gynnal asesiadau sylfaenol o ofynion y gweithlu LPS – a sicrhau bod cynlluniau ar waith i hyfforddi a recriwtio AMCPs.
- Mae'r Fframwaith Hyfforddi yn nodi'r canlyniadau dysgu y bydd angen i staff sy'n dod i gysylltiad â'r LPS ar bob lefel cymhwysedd, gan gynnwys AMCPs, eu cyflawni mewn hyfforddiant.
- Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi drafft, er mwyn helpu i weithredu'r LPS.

### **Pa hyfforddiant y bydd angen i AMCPs newydd ei wneud?**

- Bydd hyfforddiant trosi ar gael i'r unigolion hynny sy'n gweithio fel BIAs ar hyn o bryd. Bydd adnoddau hyfforddi yn cael eu comisiynu gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Bydd angen i'r rhai nad ydynt yn gwneud hyfforddiant trosi wneud yr hyfforddiant i AMCP newydd. Mae hwn hefyd yn cael ei gomisiynu gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo (ond nid yn eu blwyddyn gyntaf o weithio fel AMCP), bydd yn ofynnol i bob AMCP wneud 18 awr o hyfforddiant pellach bob blwyddyn.

### **Rheoliadau ar bwy all gynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi:**

#### **Pa asesiadau fydd yn cael eu cynnal fel rhan o'r LPS?**

- Cynhelir tri asesiad o dan yr LPS, sef asesiad meddygol, asesiad galluedd meddyliol ac asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd.



## **Pam fod angen yr asesiadau hyn?**

- Mae angen y tri asesiad er mwyn canfod a yw'r tair amod awdurdodi yn cael eu bodloni. Dyma'r amodau:
  - Nid oes gan y person y galluedd i gydsynio i'r trefniadau (gofal, cymorth neu driniaeth) – dyma'r asesiad galluedd meddyliol.
  - Mae gan yr unigolyn anhwylder meddwl – dyma'r asesiad meddygol / diagnostig.
  - Mae'r trefniadau yn angenrheidiol i atal niwed i'r person sy'n derbyn gofal ac maent yn gymesur mewn perthynas â thebygolrwydd a difrifoldeb niwed i'r person sy'n derbyn gofal – dyma'r asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd.

## **Beth yw adolygiad cyn-awdurdodi?**

- Cyn y gellir rhoi awdurdodiad LPS, rhaid i rywun sy'n annibynnol ar y rhai sy'n darparu gofal, cymorth neu driniaeth o ddydd i ddydd gynnal adolygiad cyn-awdurdodi.
- Diben yr adolygiad cyn-awdurdodi yw cadarnhau ei bod yn rhesymol i'r corff cyfrifol ddod i'r casgliad bod yr amodau ar gyfer awdurdodiad yn cael eu bodloni. Hynny yw, bod y tri asesiad wedi dod i'r casgliad priodol a bod yr ymgynghoriad gofynnol wedi'i gynnal cyn yr awdurdodiad cychwynnol, pan argymhellir amrywiad i'r trefniadau y cytunwyd arnynt neu cyn adnewyddu'r trefniadau awdurdodedig. Bydd disgwyl i'r person sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi graffu ar y tri asesiad a gynhelir ar gyfer yr LPS.
- Dim ond ar ôl i'r adolygiad cyn-awdurdodi gael ei gwblhau y gall y Corff Cyfrifol awdurdodi amddifadu o ryddid. Rhaid i'r Corff Cyfrifol anfon copi o'r Cofnod Awdurdodi at y bobl berthnasol o fewn 72 awr.

## **Mae'r Rheoliadau'n nodi pa unigolion a fydd yn gallu cynnal asesiadau a phenderfyniadau a phwy sy'n cael cynnal adolygiadau cyn-awdurdodi. Pam fod yr unigolion hyn wedi cael eu dewis ac nid eraill?**

- Rhaid i'r unigolion a nodwyd gael y sgiliau angenrheidiol i gynnal y tri asesiad gwahanol. Mae meddygon ac ymarferwyr seicoleg wedi'u nodi fel y rhai a fydd yn cynnal yr asesiad meddygol. Nodwyd grŵp ehangach o ymarferwyr i gynnal yr asesiad galluedd meddyliol, a'r asesiadau angenrheidrwydd a chymesuredd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, nyrsys, ymarferwyr meddygol a seicolegwyr, a

rhaid i'r Corff Cyfrifol sicrhau eu bod wedi'u cofrestru â'r corff proffesiynol perthnasol.

- Rydym yn defnyddio'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft i gadarnhau ein bod wedi nodi'r grwpiau cywir o bobl i gynnal y tri asesiad. Os bydd yr ymgynghoriad yn dangos bod ymarferwyr ychwanegol a allai fod yn addas i'w hychwanegu i gyflawni'r rôl hon, gallwn ystyried a ddylid ehangu'r grŵp.

### **O ystyried y bydd yr LPS yn berthnasol mewn lleoliadau addysg, pa rôl fydd i athrawon?**

- Bydd angen barn athrawon a phobl eraill sy'n cefnogi'r person i gyflawni ei ganlyniadau er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth glir o farn, dymuniadau a theimladau'r person – oherwydd eu profiadau o gyfathrebu â'r person hwnnw a'i gefnogi. Bydd gan staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg brofiad sylweddol o helpu plant i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau – a'u barn ar unrhyw drefniadau ar gyfer eu gofal, eu cymorth neu eu triniaeth.
- Nid yw'r Rheoliadau drafft yn nodi athrawon fel un o'r proffesiynau y mae'n ofynnol iddynt gynnal yr asesiadau. Fodd bynnag, byddwn yn gallu defnyddio'r cyfnod ymgynghori i gasglu barn ynghylch a ddylid cynnwys proffesiynau eraill hefyd yn y rhai a restrir i gynnal asesiadau angenrheidrwydd a chymesuredd.

### **Pam mai dim ond meddygon ac ymarferwyr seicoleg sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n gallu cynnal asesiadau meddygol?**

- O dan yr LPS, gall meddygon ac ymarferwyr seicoleg gynnal asesiadau meddygol. Mae hwn yn ystod ehangach o weithwyr meddygol proffesiynol nag o'r blaen o dan y DoLS. Y rheswm am hyn yw na fydd angen cynnal asesiad newydd mewn llawer o achosion, ac felly nid oes angen profiad o roi diagnosis a thriniaeth ar gyfer anhwylder meddwl. Ar gyfer diagnosis newydd, mae'n debygol mai dim ond ymarferwyr meddygol cofrestredig sydd â phrofiad o roi diagnosis a thriniaeth ar gyfer anhwylder meddwl fyddai'n briodol i roi'r diagnosis hwnnw.
- Pan fo diagnosis o'r fath eisoes yn bodoli, bydd yr ymarferydd meddygol neu'r seicolegydd yn cadarnhau bod y diagnosis presennol yn dal yn berthnasol i'r asesiad meddygol.
- Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer yr LPS yn rhoi mwy o fanylion am y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni drwy asesiad meddygol. Trwy integreiddio ac ymgorffori'r wybodaeth ddiweddaraf am y person (er enghraifft llythyr diagnosis) yng nghynllun statudol unigolyn, bydd modd sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â hwy yn cael eu llywio mewn modd cyson a phriodol.

### **A fydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r proffesiynau hynny y nodwyd eu bod yn gallu cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau?**

- Bydd. Mae proffesiynau sy'n cynnal asesiadau, penderfyniadau ac adolygiadau cyn-awdurdodi fel rhan o'r LPS yn un o'r grwpiau allweddol a nodir yn y Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyffordd, a fydd yn cynnwys ffocws ar ddatblygu hyfforddiant, deunyddiau ategol a gwybodaeth.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gomisiynu hyfforddiant. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi LPS drafft ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft i Gymru i gefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS.  
**Pwy fydd yn gyfrifol am gynnal adolygiadau cyn-awdurdodi?**
- Bydd ystod ehangach o bobl sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu cynnal adolygiadau cyn-awdurdodi. Mae hyn yn cynnwys meddygon, nyrsys, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol, ymarferwyr seicoleg a therapyddion lleferydd ac iaith. Gallai hyn gynnwys person sy'n cael ei gyflogi gan y Corff Cyfrifol neu gan sefydliad arall.
- Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau ar bwy all gynnal adolygiad cyn-awdurdodi. Ni all rhywun sy'n ymwneud â rhoi gofal neu driniaeth o ddydd i ddydd i'r person gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi.
- Mae'r cyfyngiadau ar bwy all gynnal adolygiad cyn-awdurdodi yn sicrhau annibyniaeth weithredol, yn enwedig gan y bydd yr asesiadau perthnasol (asesiad galluedd, asesiad meddygol ac asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd) yn cael eu cynnal gan aelodau o'r tîm sy'n gyfrifol am ofal, cymorth neu driniaeth y person.
- Mae hyn felly'n ychwanegu diogeliad ychwanegol – ac yn sicrhau bod y person a fydd yn awdurdodi'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn annibynnol oddi wrth y rhai sy'n darparu'r gofal, y cymorth a'r driniaeth.
- Oherwydd natur gymhleth y rôl hon, rhaid i'r Corff Cyfrifol fod yn sicr bod gan yr adolygydd cyn-awdurdodi y sgiliau angenrheidiol i gael, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth gymhleth a safbwyntiau gwahanol a'u cloriannu wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi newydd yn cynnwys canlyniadau dysgu penodol ar gyfer y bobl a fydd yn cynnal adolygiadau cyn-awdurdodi. Mae'r rhain yn ofynion rhagnodedig ar gyfer asesiadau eraill.
- Bydd AMCPs yn cyflawni rôl yr adolygydd cyn-awdurdodi ar gyfer achosion cymhleth, ac achosion lle mae'r sawl sy'n derbyn gofal yn gwrthwynebu'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth arfaethedig.

### **A fydd hyfforddiant ar gael i'r bobl a fydd yn cynnal yr adolygiadau cyn-awdurdodi o dan yr LPS?**

- Bydd. Pobl sy'n cynnal adolygiadau cyn-awdurdodi yw un o'r grwpiau allweddol a nodir yn y Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi, a fydd yn cynnwys ffocws ar ddatblygu hyfforddiant, deunyddiau ategol a gwybodaeth.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gomisiynu hyfforddiant. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi LPS drafft, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft i Gymru, i gefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS.

### **Rheoliadau Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA):**

#### **Sut bydd yr IMCA yn cefnogi pobl fel rhan o'r LPS?**

- Bydd yr IMCA yn cefnogi'r person a'r rhai sy'n gweithredu ar ei ran i sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn llywio'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth.
- Bydd yr IMCA hefyd yn gallu cyflwyno sylwadau i'r unigolyn sy'n cynnal adolygiad cyn-awdurdodi o dan y LPS. Mae hwn yn ddiogeliad hanfodol sy'n sicrhau bod llais y person yn cael ei ystyried yn ystod y cam hwn o'r broses.
- Mae rôl a swyddogaethau'r IMCA yng Nghymru yn cyd-fynd yn fras â'r Rheoliadau ar IMCAs a ddatblygwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Cymru hefyd yn cynnwys gofyniad i'r IMCA gadw cysylltiad â'r Person Priodol (yn ogystal â'r person sy'n derbyn gofal) yn ystod cyfnod yr apwyntiad mewn modd sy'n ymarferol ac yn briodol ym marn yr IMCA a'r Corff Cyfrifol.
- Fel elfen ychwanegol, mae Rheoliadau Cymru yn pennu mai'r IMCA a'r Corff Cyfrifol fydd yn penderfynu pa lefel o gyswllt sy'n ymarferol ac yn briodol. Mae hyn yn cydnabod y bydd lefelau amrywiol o gymorth sy'n ofynnol/y gofynnir amdanynt gan berson sy'n derbyn gofal neu Berson Priodol ac y bydd angen cydbwysu hyn â chapasiti'r IMCA.

#### **Sut byddwn ni'n sicrhau bod gennym ddigon o IMCAs yng Nghymru?**

- Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith ymgysylltu ar Gynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi Cymru, a fydd yn cynnwys ffocws ar ddatblygu hyfforddiant, deunyddiau ategol a gwybodaeth.
- Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi LPS drafft, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft i Gymru, i gefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS.

## **Pa hyfforddiant a chymwysterau y bydd angen i IMCAs newydd eu cael?**

- IMCAs yw un o'r grwpiau allweddol a nodwyd yn y Cynllun Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi. Bydd angen i ddarparwyr hyfforddiant IMCA addasu eu hyfforddiant i ystyried y cyfrifoldebau newydd o dan yr LPS. Mae'r canlyniadau dysgu sy'n ofynnol mewn hyfforddiant ar gyfer IMCAs wedi'u nodi yn y Fframwaith Hyfforddi.
- Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi drafft ar gyfer yr LPS, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft i Gymru, i gefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS.

## **A fydd cyllid ar gyfer gweithredu'r LPS yng Nghymru**

- Rhaid datblygu strategaeth ariannu hirdymor ar gyfer yr Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru. Caiff hyn ei lywio gan yr ymgynghoriad a bydd yn dibynnu ar y rheoliadau terfynol a'r Cod Ymarfer. Cyn hyn, cytunwyd ar strategaeth ariannu Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys costau trosiannol o £8 miliwn ar gyfer yr Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn 2022/23.
- Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant, datblygu cynlluniau'r gweithlu, cynlluniau ar gyfer monitro ac adrodd, a gwell darpariaeth o rai rolau allweddol, megis Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, cyn gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Strategaeth ariannu ddangosol Llywodraeth Cymru yw i'r cyllid hwn barhau yn 2023/24 a 2024/25, i gefnogi gweithredu yn y flwyddyn drosiannol a thu hwnt. Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad, bwriadau cynnar yw i gyllid ym mlynnyddoedd dau a thri gynyddu hyd at £17m y flwyddyn, yn unol â'r costau disgwyliedig a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

## **Cwestiynau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori hyd yma:**

### **A oes cynlluniau ar gyfer Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl, a ddatblygwyd ac a redir gan bobl anabl, a fydd yn ofynnol i bobl ar bob lefel, yn enwedig staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl anabl?**

Bydd gofynion hyfforddi penodol ar gyfer AMCPs mewn perthynas â'r LPS. Ar gyfer pob grŵp cymhwysedd arall a nodir yn nhriongl gweithlu'r LPS, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adnoddau hyfforddi ar gael i Gyrff Gyfrifol eu darparu'n lleol. Ni fydd yr adnoddau hyn ar gyfer Cyrff Cyfrifol yn hyfforddiant orfodol. Wrth adolygu'r angen am hyfforddiant yn lleol, bydd cyfle i'r Cyrff Cyfrifol i ystyried eu cynnig hyfforddiant presennol ac integreiddio hyfforddiant allweddol sydd ei angen yn fwy eang na'r LPS, gan gynnwys gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig. Amlygir hyn yn y cynllun gweithlu a hyfforddiant, a byddai Llywodraeth Cymru yn annog ardaloedd lleol i ystyried hyfforddiant ychwanegol a fyddai'n cefnogi hyfforddiant LPS.

### **A fydd unrhyw beth yn newid i bobl ifanc 15 oed ac iau?**

Ni fydd unrhyw beth yn newid i bobl ifanc 15 oed ac iau. Bydd yr LPS yn berthnasol i bobl ifanc o 16 oed ac hŷn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu deunyddiau unwaith i Gymru (deunyddiau ategol a ddatblygwyd ar sail Cymru gyfan) ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed, i'w paratoi ar gyfer y newidiadau y gallant eu profi pan fyddant yn troi'n 16 oed.

### **A fydd y lleoliadau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn yr LPS yn golygu y bydd ôl-groniadau ar gyfer awdurdodiadau yn fwy nag y maent o dan DoLS ar hyn o bryd?**

Mae'r newidiadau i'r system ddiogelu yn cael eu gwneud yn rhannol i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau sy'n golygu na ellir rheoli'r system DoLS bresennol ac i gynnig gwell amddiffyniadau i bobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol. Y gobaith yw y bydd ôl-groniadau'n cael eu lleihau o ganlyniad i'r newidiadau, oherwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel fwyaf priodol ac yn ymgorffori'r broses o wneud penderfyniadau mewn cynllunio gofal, cymorth a thriniaeth sy'n bodoli eisoes, a lleihau'r baich ar y rhai sy'n cynnal asesiadau. Bydd AMCPs yn ystyried yr achosion mwyaf cymhleth, ond bydd llawer o achosion yn gallu cael eu hystyried gan ystod lawer ehangach o staff nag o dan y DoLS.

### **A fydd AMCPs yn cael eu gweld yn wahanol yn seiliedig ar sut y maent wedi cymhwyso i fod yn AMCP?**

Bydd staff sy'n gweithio fel Aseswyr Lles Pennaf ar hyn o bryd yn gallu dilyn cwrs trosi symlach i'w galluogi i weithio fel AMCPs. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ystyried y wybodaeth a'r profiad sydd ganddynt eisoes o'u gwaith fel Aseswyr Lles Pennaf. Ar gyfer staff nad ydynt wedi gweithio fel Aseswyr Lles Pennaf o'r blaen, bydd yn

ofynnol iddynt ddilyn cwrs lefel addysg uwch er mwyn sicrhau bod hyfforddiant o'r lefel briodol.

Mae'r rheoliadau ar gyfer Cymru yn glir nad oes gwahaniaeth mewn statws rhwng AMCPs sydd wedi cymhwyso drwy'r ddau lwybr hyn. Bydd y ddau grŵp yn gallu gweithio fel AMCP yn barhaus, ar yr amod eu bod yn bodloni'r amodau ar gyfer parhau i gymeradwyo. Byddai'r cwrs addysg uwch ar gael i AMCPs sydd wedi cymhwyso drwy'r cwrs trosi pe baent yn dymuno gwneud hyn fel rhan o'u hyfforddiant pellach blynyddol.

## **Cwestiynau a godwyd ar fonitro ac adrodd**

### **Dull o fonitro ac adrodd sy'n seiliedig ar gydsyniad:**

**Mae'r dogfennau ymgynghori yn cyfeirio at fabwysiadu dull o fonitro ac adrodd sy'n seiliedig ar gydsyniad. A oes gorgyffwrdd yma gyda defnyddio a chymhwyso Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO)? Sut y bydd y drefn fonitro a gynlluniwyd ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn sicrhau bod dealltwriaeth glir pan fydd y gorchmynion hynny'n cael eu defnyddio?**

Cyflwynir Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ni fyddai'r cyrff monitro yn monitro'r defnydd o Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion fel rhan o waith monitro Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, er y gallant fel rhan o waith adolygu perfformiad ehangach. Hefyd – fel cyrff monitro, ni fyddent yn ceisio Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion: pe bai pryderon diogelu, byddai'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Lleol er mwyn iddo benderfynu ar gamau gweithredu priodol.

Gellir defnyddio Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i alluogi swyddog awdurdodedig, ac unrhyw berson arall a bennir yn y gorchmyn, i siarad yn breifat ag oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, i weld a all yr oedolyn wneud penderfyniadau drosto'i hun, i asesu a yw'r person yn oedolyn sydd mewn perygl ac i ganfod a ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu. Gorchmynion pan fetho popeth arall yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Dim ond pan fydd dulliau eraill llai ymwithiol wedi methu neu'n debygol iawn o fethu y gwneir ceisiadau. Mae gan bob awdurdod lleol swyddog awdurdodedig enwebedig a all roi cyngor ac arweiniad arbenigol lle y gallai fod angen Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Cyngor i gydweithwyr proffesiynol ydyw, a dim ond swyddog awdurdodedig all wneud y cais.

Mae egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn sail i Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau statudol: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrog-4-gorchmyn-amddiffyn-a-chynorthwyo-oedolion.pdf>

Mae'n ofynnol i Adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gynnwys manylion am nifer y gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion y gwnaed cais amdanynt yn ardal y Bwrdd Diogelu, faint ohonynt a wnaed, a pha mor effeithiol yr oeddent.

**O ran ymweliadau gan y cyrff monitro (er enghraifft – ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain), sut y penderfynir ar hyn a ble y caiff hyn ei nodi? Er enghraifft, a fydd dull sy'n seiliedig ar gwota lle bydd y cyrff monitro yn cynnal nifer penodol o ymweliadau – neu a fydd sbardunau penodol ar gyfer cynnal ymweliadau? Ble fydd yr wybodaeth am hyn yn cael ei nodi?**

Rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i'r dull a ddefnyddir i fonitro'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid pan fo'r person sy'n derbyn gofal yn ei gartref ei hun. Mae gan AGC drefniadau presennol ar gyfer ymweld â rhai pobl yn eu cartrefi eu hunain os ydynt yn derbyn gwasanaeth a reoleiddir – ac felly byddent yn ceisio cynnwys ffocws ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid fel rhan o'r gwaith o arolygu'r gwasanaethau hyn. Ar gyfer pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac nad ydynt yn derbyn gwasanaeth a reoleiddir, mae AGC yn bwriadu cynnal cyfarfodydd â phobl yn unol â Strategaeth Monitro ac Adrodd Cymru.

Er mwyn cefnogi tryloywder, bydd gwybodaeth am y dull a ddefnyddir (gan gynnwys unrhyw sbardunau penodol a allai annog AGC, AGIC neu Estyn i gynnal ymweliadau) yn cael ei nodi fel rhan o Strategaeth Monitro ac Adrodd Cymru.

**Sut y bydd y cyrff monitro yn defnyddio'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol i lywio eu dull o fonitro ac adrodd?**

Mae'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol arfaethedig yn cynnwys eitemau data pwysig yn ymwneud â defnyddio'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd AGC, AGIC ac Estyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro tueddiadau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yn ofynnol i Gyrff Cyfrifol hysbysu cyrff monitro yn rheolaidd am geisiadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, awdurdodiadau, adnewyddiadau ac awdurdodiadau sy'n dod i ben. Caiff data eu casglu bob chwarter drwy'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol a gynhyrchir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau cysondeb o ran sut y mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu monitro ar draws Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Bydd y data'n darparu gwybodaeth i lywio gweithgarwch arolygu parhaus yn ogystal â monitro ac adrodd yn flynyddol ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Ochr yn ochr â'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol – bydd y cyrff monitro hefyd yn ystyried:

- Gwybodaeth a gasglwyd o unrhyw adroddiadau a baratowyd gan Gyrff Cyfrifol ar weithredu Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar lefel leol neu ranbarthol.
- Gwybodaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu'n barhaus ag uwch arweinwyr mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar brosesau ac arferion lleol a'r cryfderau a'r heriau o ran sut y maent yn rheoli, yn monitro ac yn adrodd ar Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
- Gwybodaeth gan ddarparwyr gofal a thriniaeth / cefnogaeth ac addysg.
- Monitro'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid fel rhan o arolygiadau rheolaidd o ddarparwyr gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol/byrddau iechyd mewn lleoliadau lle mae unigolion yn derbyn gofal, cefnogaeth, triniaeth ac addysg. Bydd y corff monitro perthnasol yn cyhoeddi canllawiau ar y dull arolygu.



- Mae'n bwysig nodi ar hyn o bryd o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DOLS) bod darparwyr sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn rhoi hysbysiad amser real o geisiadau am awdurdodiadau DOLS, a bydd hyn yn dod i ben.

**Beth fydd dull gweithredu'r cyrff monitro pan nad yw'r person sy'n derbyn gofal neu ei deulu yn dymuno cynnal ymweliad monitro? A fyddant yn ymgysylltu â'r Cyrff Cyfrifol?**

Bydd y cyrff monitro yn gweithio'n agos gyda Chyrrff Cyfrifol wrth iddynt fonitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru. Bydd cyswllt uniongyrchol â'r Corff Cyfrifol perthnasol ynghylch unrhyw drefniadau monitro arfaethedig ar gyfer pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain nad ydynt yn derbyn gwasanaeth a reoleiddir, gan gydnabod sensitifrwydd ehangach a'r angen i ddiogelu hawl pobl i breifatrwydd.

**Mae cryn sensitifrwydd o ran monitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid lle mae'r person sy'n derbyn gofal yn ei gartref ei hun. Sut caiff hyn ei reoli?**

Mae gan AGC, AGIC ac Estyn brotocolau sy'n bodoli eisoes ar ymgysylltu â theuluoedd. Bydd ymweliadau'n cael eu cynllunio'n ofalus gan y cyrff monitro – mewn cydweithrediad uniongyrchol â'r person sy'n derbyn gofal, ei Berson Priodol, ei Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a'r Corff Cyfrifol. Os yw'r person yn derbyn gwasanaeth a reoleiddir a bod gwaith monitro'n cael ei wneud ochr yn ochr ag arolygu'r gwasanaeth, bydd y trefniadau presennol ar gyfer ymweliadau yn berthnasol. Caiff rhagor o fanylion am y dull gweithredu eu nodi yn Strategaeth Monitro ac Adrodd Cymru – gan adlewyrchu barn rhanddeiliaid ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau drafft ar fonitro ac adrodd.

**Sut mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried yr angen i fonitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid os yw'r person sy'n derbyn gofal yn ei gartref ei hun?**

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft i Gymru yn cynnwys yn benodol y costau ar gyfer monitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng nghartrefi pobl. Ystyrir yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a gellir diwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu tystiolaeth o effeithiau mewn perthynas â chostau parhaus i gefnogi Strategaeth Monitro ac Adrodd Cymru.

## Set Ddata Ofynnol Genedlaethol:

**Yn y llythyr ariannu diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, cyfeirir at WCCIS a sut y mae lechyd a Gofal Digidol Cymru yn arwain ar waith i sicrhau y gellir ei ddefnyddio i adrodd ar Set Ddata Ofynnol Genedlaethol Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Sut y bydd adrodd yn gweithio ar gyfer y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn defnyddio WCCIS ar hyn o bryd?**

Wrth ddatblygu'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn "agnostig" o ran systemau ategol a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer monitro ac adrodd parhaus. Fodd bynnag, bydd WCCIS yn cael ei ddiwygio i gynnwys llif gwaith / templedi / adroddiadau perthnasol yn y WCCIS. Ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn rhai WCCIS, y disgwyliad yw y byddant yn arwain ar adeiladu'r data a gesglir yn eu systemau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu dwy swydd yn lechyd a Gofal Digidol Cymru - un ohonynt yn beiriannydd data – a fydd yn cydweithio â byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i echdynnu'r data sydd eu hangen.

**Mae'r eitemau data sydd wedi'u cynnwys yn y Set Ddata Ofynnol Genedlaethol yn canolbwyntio'n helaeth ar brosesau. Pa gynlluniau sydd ar waith i fonitro canlyniadau'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar gyfer y person sy'n derbyn gofal ac eraill?**

Ochr yn ochr â'r defnydd o'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol - fel rhan o'u rôl monitro ac adrodd (ac fel y nodir yn fersiwn ddrafft y Strategaeth Monitro ac Adrodd) bydd AGC, AGIC ac Estyn yn cynnwys ffocws ar sicrhau:

- Bod Cyrff Cyfrifol yn cynnal hawliau pobl drwy weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn effeithiol, yn gymesur ac yn effeithlon.
- Nid yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdodiad.
- Cyflawnir unrhyw amddifadedd awdurdodedig yn gymesur ac yn unol â'r awdurdodiad.
- Gofynnir am awdurdodiadau lle bo hynny'n briodol.
- Mae hawliau pobl yn cael eu diogelu ac mae trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth sydd gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn cael eu hasesu, eu hawdurdodi a'u hadolygu'n briodol.
- Ymgynghorwyd â'r person ac unigolion penodol eraill cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol ynghylch dymuniadau a theimladau'r person am y trefniant ar gyfer ei ofal.
- Caiff "Person Priodol" ei adnabod a'i benodi i gynrychioli a chefnogi'r person sy'n derbyn gofal. Pan nad oes unrhyw un addas, mae Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) wedi cael cyfarwyddyd. (O dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, mae'r Person Priodol hefyd yn gallu cael ei gefnogi gan IMCA.)
- Mae pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael y gofal sydd ei angen arnynt sydd er eu lles gorau ac yn unol â'u dymuniadau eu hunain ac sy'n cynnig y dull lleiaf cyfyngol.
- Mae Cyrff Cyfrifol a darparwyr gofal yn ystyried yn gyson a ellid rhoi trefniadau amgen ar waith i atal colli rhyddid.

- Mae awdurdodiadau'n cael eu cynnal yn briodol ac yn gweithredu dull 'dim drws anghywir' gydag unrhyw anghydfod i benderfynu ar Gorff Cyfrifol perthnasol yn cael ei ddatrys yn gyflym
- Rhennir gwybodaeth lle bo hynny'n berthnasol am unrhyw bontio rhwng trefniadau gofal.
- Mae pobl yn derbyn gwybodaeth amserol am yr awdurdodiad gan gynnwys eu hawl i herio'r awdurdodiad yn y Llys Gwarchod.
- Sicrhau bod staff wedi cael hyfforddiant a'u bod â dealltwriaeth briodol i gyflawni eu rolau, a bod gweithlu sy'n gymwys yn ddiwylliannol wedi'i sefydlu.
- Cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a gofynion monitro AGC/AGIC/Estyn.

**Mae rhai rhanddeiliaid yng Nghymru wedi codi pryderon y bydd monitro ac adrodd ar 30 o eitemau data yn "llafurddwys" ac y bydd effeithiau ar y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl eitemau data yn hanfodol – ac y byddant yn cael eu defnyddio gan y cyrff monitro?**

Mae'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol yn bennaf yn cynnwys eitemau data y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol eu casglu fel rhan o'u cyfrifoldebau presennol i asesu a diwallu anghenion y person hwnnw am ofal, cymorth a thriniaeth. Mae'n cynnwys yr eitemau data penodol sy'n galluogi i Gyrrff Monitro edrych ar dueddiadau allweddol mewn perthynas â nifer y ceisiadau, awdurdodiadau ac adnewyddiadau ac adrodd arnynt – yn ogystal â gwybodaeth am sut mae'r broses Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithio. Defnyddir y data i lywio gweithgarwch arolygu parhaus (gweler cwestiwn 10 isod).

**Cwestiynau a godwyd ar asesiadau a phenderfyniadau**

**A gaiff gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliad lle mae unigolyn yn cael gofal a thriniaeth gynnal asesiad o'r unigolyn hwnnw?**

Mae rheoliadau drafft Cymru yn nodi'r gofynion cymhwysedd ar gyfer cynnal asesiadau galledd, asesiadau meddygol ac asesiadau angenrheidrwydd a chymesuredd. Un o'r gofynion cymhwysedd cyffredinol yw bod angen i'r asesydd fod â'r gallu i weithredu'n annibynnol i unrhyw berson sy'n ei benodi i gynnal asesiad ac unrhyw berson sy'n rhoi gofal neu driniaeth i P. Nid yw'n fwriad gan y polisi y bydd y gofyniad hwn am annibyniaeth o fewn y rheoliadau ar gyfer Cymru yn atal unigolyn sydd ynghlwm â gofal neu driniaeth P rhag cynnal asesiadau. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y Cod Ymarfer drafft sy'n nodi fel esiampl, ym mharagraff 16.8, y gallai gweithiwr cymdeithasol sydd ynghlwm â gofal unigolyn gynnal yr asesiadau galluedd a'r asesiadau a phenderfyniadau angenrheidrwydd a chymesuredd, ac y gallai meddyg ddarparu'r asesiad a phenderfyniad meddygol. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, na ddylai unrhyw berson sy'n cynnal adolygiad cyn awdurdodi fod ynghlwm â gofal P o ddydd i ddydd, nac ynghlwm â darparu unrhyw driniaeth i P (paragraff 24 o Atodlen AA1 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005).

## **A gaiff dau aelod o'r un tîm gynnal asesiad o unigolyn (ateb i adlewyrchu 16.9 o'r Cod Ymarfer)**

Mae'r Cod Ymarfer drafft ar gyfer Cymru a Lloegr yn nodi ym mharagraff 16.9:

*“Dylai fod gan y gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiadau a'r phenderfyniadau elfen o annibyniaeth oddi wrth ei gilydd. Bydd yn fater i Gyrrff Cyfrifol benderfynu'r trefniadau manwl i sicrhau annibyniaeth yn seiliedig ar amgylchiadau unigol yr achos, ond dylid ystyried yr egwyddorion canlynol:*

- *ni ddylai unigolyn sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad fod yn ymwneud â'r un fenter busnes ag un arall sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad, gan gynnwys bod yn bartner, cyfarwyddwr, deiliad swydd arall, neu brif randdeiliad; ac*
- *ni ddylai unigolyn sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad gyfarwyddo'r gwaith neu gyflogi un arall sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad; ac*
- *ni ddylai'r rhai hynny sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad fod yn aelodau o'r un tîm sy'n gweithio gyda'i gilydd at ddibenion clinigol yn rheolaidd. Er enghraifft, gallent weithio yn yr un ysbty, ond ni ddylent weithio ar yr un ward yn rheolaidd.*

Mae'r rheoliadau ar gyfer Cymru yn nodi bod rhaid i unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n cynnal asesiad fod â'r gallu i weithredu'n annibynnol i unrhyw berson sy'n ei benodi i gynnal asesiad ac unrhyw berson sy'n darparu gofal neu driniaeth i P. Nid yw'r rheoliadau hyn o reidrwydd yn atal unigolion sy'n gweithio o fewn yr un tîm rhag cynnal asesiadau ar wahân ar gyfer unigolyn, cyn belled bod y Corff Cyfrifol yn fodlon bod gan unigolion o'r fath y gallu i weithredu'n annibynnol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Dylai rhanddeiliaid yng Nghymru ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Cod Ymarfer drafft ar gyfer Cymru a Lloegr os ydynt yn credu na fyddai'r ymarfer a awgrymir yn y ddogfen yn ymarferol yng Nghymru.

### **A all un person gynnal pob un o'r tri asesiad?**

Dylai o leiaf dau weithiwr proffesiynol gynnal y tri asesiad a phenderfyniad cyn y gall Corff Cyfrifol ystyried awdurdodi y dylid amddifadu rhywun o ryddid. Mae hyn wedi'i adlewyrchu ym mharagraff 16.8 o'r Cod Ymarfer.

### **A fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys unrhyw broffesiynau eraill ar y rhestr? (athrawon, ffisiotherapyddion, therapyddion celf ac ati)**

Byddai Llywodraeth Cymru'n annog y rheini sy'n credu y dylid cynnwys proffesiynau ychwanegol ar y rhestr o'r rheini a all gynnal unrhyw un o'r tri asesiad i ymateb i'r ymgynghoriad ysgrifenedig gan nodi'r rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi cynnwys y rhain.

### **A fyddai'n rhaid i weithiwr proffesiynol sydd wedi'i restru yn y rheoliadau gynnal asesiadau?**

Rheoliadau galluogi yw'r rhain sy'n nodi'r ystod o swyddi proffesiynol a fyddai'n gymwys i gynnal asesiadau. Bydd angen i Gyrrff Cyfrifol Unigol a gweithwyr proffesiynol farnu pa unigolion sydd yn y sefyllfa orau i gynnal asesiadau yn yr ardal honno, gan ystyried staffio, hyfforddiant, profiad a'r gofynion yn y rheoliadau. Dylai unigolion ddefnyddio eu barn broffesiynol ynghylch a ydynt yn gymwys i gynnal asesiadau.

### **A fyddai'n bosibl cael diffiniad mwy penodol o ymarferydd meddygol?**

Rheoliadau galluogi yw'r rhain sy'n nodi'r ystod o swyddi proffesiynol a fyddai'n gymwys i gynnal asesiadau. Bydd disgwyl i ymarferwyr meddygol cofrestredig unigol ddefnyddio eu barn broffesiynol i farnu a ydynt yn gymwys i gynnal asesiadau.

### **A fyddai perthyn i rywun â buddiant ariannol mewn cartref gofal yn atal rhywun rhag cynnal asesiadau?**

Ni chaiff unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n cynnal asesiad fod yn perthyn i unigolyn sydd â buddiant ariannol yng ngofal y person sy'n cael yr asesiad. Mae'r termau "perthynas" a "buddiant ariannol" wedi'u diffinio yn y rheoliadau.

### **A fyddai angen i unigolyn sydd heb gael diagnosis gael un at ddibenion Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid?**

O dan Atodlen AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, rhaid bodloni tri amod cyn y gellir awdurdodi'r trefniadau. Un o'r amodau hyn yw bod rhaid i'r unigolyn fod ag anhwylder meddwl. Yn unol â hynny, o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, mae angen asesiad a phenderfyniad meddygol i sefydlu a oes gan y person anhwylder meddwl cyn y gellir awdurdodi.

Mae paragraffau 16.49 a 16.50 o'r Cod Ymarfer yn nodi fel a ganlyn:

*16.49 Yn y rhan fwyaf o achosion, sefydlir hyn yn syml trwy dderbyn diagnosis o gyflwr penodol. Bydd llythyr diagnosis, wedi'i lofnodi gan ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys meddyg teulu a seiciatrydd), neu seicolegydd cofrestredig sy'n bodloni'r amodau yn y rheoliadau, fel arfer yn bodloni'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr asesiad a'r penderfyniad. Pan fydd gan yr unigolyn ddiagnosis, neu bydd yn bosibl derbyn diagnosis yn y cyfnod amser perthnasol i'r LPS, yna dylai'r Corff Cyfrifol ofyn am lythyr yn cadarnhau'r diagnosis. Os nad yw'r Corff Cyfrifol yn ymwybodol bod diagnosis blaenorol wedi'i wneud, dylai'r Corff Cyfrifol gysylltu â chlinigydd sy'n goruchwylio gofal yr unigolyn yn y lle cyntaf i ofyn am yr wybodaeth hon (gall hyn er enghraifft fod yn feddyg teulu, seicolegydd neu seiciatrydd). Os nad oes gan yr unigolyn ddiagnosis yn barod, dylai'r Corff Cyfrifol ofyn am ddiagnosis o gyflwr yr unigolyn trwy'r clinigwr sy'n goruchwylio gofal yr unigolyn.*

*16.50 Mewn rhai achosion, lle na wnaed diagnosis yn barod, mae'n bosibl na fydd yn hawdd gwneud diagnosis o gyflwr manwl gywir a gall gymryd cryn dipyn o amser. Os nad yw'n bosibl derbyn diagnosis terfynol cyn bod angen rhoi awdurdodiad, naill ai o fewn y cyfnod amser o 21 diwrnod ar gyfer cwblhau awdurdodiadau LPS, neu o fewn*

*cyfnod amser byrrach ar gyfer achosion brys, mae'n bosibl y bydd angen rhoi awdurdodiad cyn bod diagnosis terfynol wedi'i wneud. Mewn achosion o'r fath gellir parhau i roi awdurdodiad cyn belled â bod yr asesiad a'r penderfyniad meddygol wedi dod i'r casgliad bod gan yr unigolyn anhwylder meddyliol, ond na ellir cadarnhau'r union ddiagnosis ar hyn o bryd. Yn y fath amgylchiadau, gall diagnosis rhagarweiniol fod yn briodol. Dylai'r Corff Cyfrifol, lle bo hynny'n briodol, ofyn am ddiagnosis manwl o gyflwr yr unigolyn cyn gynted â phosibl a diweddar'u gofnodion o ganlyniad. Mewn rhai achosion, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried a fyddai awdurdodiad am gyfnod byrrach neu adolygiadau rheolaidd yn briodol os nad yw'r union ddiagnosis wedi'i gadarnhau eto.*